// Llais Llandyrnog Voice

llandyrnognews@gmail.com @LlaisLlandyrnog

Awst 2022 – Cyfrol 7– Rhifyn 11

# Sioe lwyddiannus Ysgol Bryn Clwyd



Rhai o gymeriadau'r sioe The *Beauty and the Beast* a berfformiwyd gan y disgyblion ar ddiwedd y tymor. Roedd hi'n sioe wych a phob clod i bawb a fu wrthi, yn hyfforddi ac yn perfformio!

**Cofiwch roi cyfraniad yn y blwch casglu wrth i chi nôl eich copi o swyddfa'r post, os gwelwch yn dda. Neu rhowch gyfraniad i'ch dosbarthydd. Diolch!**

# Pytiau newyddion y pentre

***Llongyfarchiadau*** i...
...Rich, Hafod y Bryn am gael ei wneud yn Aelod Cyswllt Cyngor Gwobrau y Cymdeithasau Amaethyddol Brenhinol (*CARAS*) am wasanaeth clodwiw i'r sector amaethyddol;
...Laura Williams, wyres Wendy Grey-Lloyd, Hafod Hedd, ar radio mewn gwyddor feddygol o Brifysgol Bangor. Bydd hi'n mynd yn ei blaen rŵan i astudio meddygaeth;
... Ann ac Iestyn Jones Evans, Berth, ar ddathlu eu pen blwydd priodas aur ar 5 Awst.
***Cydymdeimlwn*** â theulu Phil Tynan, Maes Clwyd yn eu profedigaeth; Catrin Jones a'r teulu, Llys Aled – Catrin wedi colli ei nain, Mrs Dilys Vaughan; ac Elen Lloyd, Maes Tyrnog, sydd wedi colli ei nain, Mrs Dora Hughes o Rhewl.
***Pob dymuniad da...***
... i Mary, Llys y Bryn (2il o'r chwith isod) ar gyrraedd oedran arbennig ac am gael ei hanrhydeddu yn y Sioe Frenhinol am stiwardio i Ferched y Wawr am 20 mlynedd yn ddi-dor.



... i Heledd Wynne-Evans, Fforddlas, ar ei swydd fel Swyddog Achos Adsefydlu Ffoaduriaid Wcráin yn Sir Fflint.

**Mae pwyllgor Llais Llandyrnog Voice yn hynod ddiolchgar am yr holl gyfraniadau hael gan unigolion. Diolch hefyd i'r Clwb Llyfrau am ei gefnogaeth rheolaidd – mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.**

Cafodd timau pêl-droed o'r pentre hwyl dda iawn arni yng nghystadlaethau 7-bob-ochr Cynghrair Pêl-droed yr Haf Llandyrnog.





Aeth dau dîm o Landyrnog i'r gystadleuaeth dan 11, a chyrhaeddodd un tîm y rownd gyn-derfynol, gan golli i'r tîm a ddaeth yn fuddugol wedyn, Llanfair.



Llongyfarchiadau i'r tîm tan 16 a oedd yn anlwcus i golli 1-0 yn y ffeinal.
Llongyfarchiadau i'r holl chwaraewyr a diolch i Jimmy ac Ethan am eu gwaith caled.

# Gwasanaethau mis Awst

**St Tyrnog**

| | | |
|---|---|---|
| 7 Awst | 10.30 | Gwasanaeth yr Ardal Genhadu yn Eglwys y Santes Fair, Dinbych |
| 14 Awst | 11.15 | Boreol weddi |
| 21 Awst | 11.15 | Boreol weddi |
| 28 Awst | 11.15 | Boreol weddi |

Ni fydd gwasanaethau yng Nghapel y Dyffryn

# Yr Ystafelloedd Coco

| | |
|---|---|
| 9 Gorffennaf | Clwb Llyfrau 10am |
| 17 Gorffennaf | Ar agor am baned a sgwrs, 2–3pm |
| 23 Gorffennaf | Clwb Llyfrau 10am |
| 30 Gorffennaf | Pwyllgor *Llais Llandyrnog*, 7pm |

***I logi'r Ystafelloedd Coco, cysylltwch ag Emily Williams, emilylloyd1@tiscali.co.uk.***

# Neuadd y Pentre

| | |
|---|---|
| 6 Gorffennaf | Grwp crefftau 9.30–3pm |
| 10 Gorffennaf | Cyfarfod pwyllgor y sioe, 7pm |
| 20 Gorffennaf | Bore coffi tuag at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan |

***I logi'r neuadd, cysylltwch â Mrs Wyn Wilson ar 01824 790447.***


J & G

TYRE SERVICES



CAR - TRUCK - FARM TYRE SPECIALISTS

BATTERIES & EXHAUSTS

Unit 1
Dyffryn Trading Estate
Rhyl Road
Denbigh
LL16 5SJ

01745 817676
07775 717602


# Haf o Hwyl

Unwaith eto mae Cyngor Sir Ddinbych yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon, diwylliannol a chwarae dwyieithog yn rhad ac am ddim fel rhan o brosiect Haf o Hwyl Llywodraeth Cymru.

Bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ar hyd a lled y sir ym misoedd Awst a Medi.

Mae'r digwyddiadau a'r gweithgareddau yn cael eu trefnu ar gyfer plant a phobl ifanc 0 i 25 oed ac yn rhoi cyfle i blant chwarae gyda'u ffrindiau a phlant a phobl ifanc eraill.

I archebu lle yn un o'r digwyddiadau neu weithgareddau ewch i: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/hamdden-a-thwristiaeth/summer-of-fun-2022/haf-o-hwyl.aspx.

St. Kentigern
HOSPICE & PALLIATIVE CARE CENTRE
HOSBIS A CHANOLFAN GOFAL

***Bore Coffi***

**Yng Nglanrafon, Dydd Iau 1 Medi,**
**10.30 – 12.00**
**Mynediad: £2**
***Croeso cynnes i bawb***

## *Bore coffi*

Neuadd y Pentre

Sadwrn, 20 Awst 10.00–11.30

Yr elw at eglwysi St Tyrnog a St Cwyfan





Derbynnir cyfraniadau yn ddiolchgar tuag at y stondinau cynnyrch cartref

*Croeso cynnes i bawb*

# Siop Gymunedol Llandyrnog

Diolch yn fawr iawn i'r holl blant a gymerodd rhan yn ein cystadleuaeth dylunio logo i'r siop. Cafwyd 36 o geisiadau yn gyfan gwbl ar draws y pentref.

Dywedodd y ddau feirniad, 'Roedd hon yn gystadleuaeth anodd iawn i'w beirniadu gyda nifer o syniadau gwych. Roedd y safon yn uchel iawn a'r brwdfrydedd yn amlwg. Llongyfarchiadau i bawb.'

Ar ddiwrnod olaf y tymor aethom i Ysgol Bryn Clwyd i gyflwyno gwobrau gydag Ollie Conry yn ennill y brif wobr. Llongyfarchiadau mawr i Ollie ac i'r holl blant a gymerodd ran.



Mae llawer o waith caled ar y gweill i gwblhau ceisiadau grant ac i gynllunio prosbectws y Cyfranddaliadau Cymunedol. Gobeithir rhannu mwy o wybodaeth ar ein gwefan a thudalen Facebook. Os hoffech gysylltu â mi yn uniongyrchol, gallwch yrru neges at emyrmorris@btinternet.com.

Diolch i Gyngor Cymuned Llandyrnog am y cyfraniad o £500 tuag at costau y prosiect.

*Emyr Morris*

# Llwyddiant y pys pêr

Llongyfarchiadau mawr i John Rowlands, Maes y Wern ar ennill gyda'r pys pêr yn y Sioe Frenhinol unwaith eto eleni. Enillodd bedair wobr gyntaf: tair fâs wahanol; y fâs orau yn y sioe; fâs o flodau o unrhyw liw arall (y tro cyntaf i bys pêr Gwawr Cymru gael unrhyw wobr mewn unrhyw sioe!); a phowlen o bys pêr cymysg. Yn ogystal enillodd tair ail wobr.

Gwahoddwyd Sioned Edwards gan Adran Cymru Cymdeithas Pys Pêr i wneud arddangosfa flodau oedd yn cynnwys pys pêr.



*Nia Roberts yn cyfweld â John*




*Dde: Sioned Edwards yn brysur â'i harddangosfa.*

*Isod: tair fas wahanol, yr un ganol yn ennill gwobr fas orau'r sioe.*



# Tuesday Club

Y siaradwr gwadd yng nghyfarfod mis Gorffennaf oedd Huw Foulkes o Laethdy Pentrefelin, fferm deuluol fechan ar gyrion Llandyrnog. Mae Huw yn godro nifer fechan o wartheg Red Poll, gan ddefnyddio arferion ffermio adfywiol.

Pan benderfynodd Huw ddechrau godro eto ym Mhentrefelin, ar ôl i'w dad roi'r gorau i odro 16 mlynedd yn ôl, dewisodd system adfywiol, gan roi blaenoriaeth i'r ecosystem a bioamrywiaeth.

Mae porfeydd Pentrefelin yn amrywiol iawn, gyda 15 rhywogaeth o weiriau a chodlysiau. Mae gan y rhain wreiddiau dyfnach, felly mewn tywydd sych, maen nhw'n cael eu hamddiffyn.

Nodwedd arbennig Pentrefelin yw bod y lloi yn cael eu cadw gyda'r buchod. Pan fydd y lloi yn 3 mis oed, maen nhw'n cael eu gwahanu oddi wrth y buchod dros nos. Mae hyn yn annog y lloi i ddechrau pori yn ifanc iawn ac yn gwneud y broses ddiddyfnu yn haws o lawer i'r fuwch ac i'r llo. Fel arfer caiff y lloi eu diddyfnu erbyn eu bod nhw'n 6 mis oed ond mae rhai'n cymryd ychydig yn hirach.

Mae llawer o waith papur yn ymwneud â chynhyrchu llaeth i'w werthu ac mae'n rhaid profi'r llaeth. Bu'n rhaid i Huw hefyd gofrestru fel busnes bwyd a mynd trwy ddau arolwg.

Mae siop Stad y Rhug yn gwerthu'r llefrith ac mae Huw yn danfon llefrith i siopau coffi ym Mhrestatyn a Rhosneigr, Ynys Môn.

Yn y dyfodol, mae Huw yn gobeithio prynu peiriant pasteureiddio mwy, a gwerthu cig eidion pan fydd y lloi presennol yn aeddfedu.

Diolchwyd i Huw am ei gyflwyniad hynod ddiddorol a dymunwyd pob llwyddiant iddo yn y dyfodol.

Cafodd pawb baned a thynnwyd y raffl. Er mai ar 21 Medi y cynhelir y cyfarfod nesaf gyda siaradwr, bydd yr Ystafelloedd Coco ar agor ddydd Mercher, 17 Awst i aelodau, neu unrhyw un a dweud y gwir, ddod draw am baned a sgwrs ar yr amser arferol – 2–4pm.



*Huw a'i wartheg Red Poll*




*Y trelar wrth giât y fferm, lle cewch brynu llefrith ac wyau, a chyfnewid llyfrau hefyd!*

# Y Sioe Flodau a Chynnyrch

Mae pwyllgor y sioe yn edrych ymlaen at eich croesawu i neuadd y pentref ar Ŵyl Banc Awst. I roi mwy o le i arddangoswyr ac ymwelwyr, bydd pabell fawr ar y cae chwarae y tu ôl i'r neuadd. Bydd arwyddion i gyfeirio arddangoswyr at eu byrddau perthnasol – bydd blodau, ffrwythau a llysiau yn y babell fawr, a chynnyrch cartref, crefftau a chystadlaethau plant yn y neuadd. Bydd stiwardiaid hefyd o gwmpas i helpu.

Mae rhaglenni'r sioe ar gael yn y swyddfa bost.

Os ydych yn gallu gosod y byrddau ddydd Sul, 28 Awst, ac yn fodlon gwneud, cysylltwch â'r ysgrifennydd, Roger Warner, ar 07879 771461 neu anfonwch e-bost at llandyrnogshow@gmail.com.



# Hanesion Hazel

Mae'n adeg cynaeafu acw. Ar ôl wythnosau o hau a phlannu, mae'r ardd yn darparu digonedd o gynnyrch cartref o'r diwedd. Fodd bynnag, mae popeth yn aeddfedu ar yr un pryd ac mae fy ffrindiau a fy nheulu i gyd yn elwa o'r gormodedd hwn. Yr haf yw adeg y flwyddyn i fwyta salad, yn enwedig eleni yn y tywydd poeth, ond hefyd oherwydd bod fy mhopty wedi penderfynu bod angen gorffwys arno ac wedi mynd ar streic. Dwi wedi gofyn i beiriannydd ddod i'w weld a gobeithio y gellir ei drwsio. Mae trwsio pethau yn syniad braidd yn hen ffasiwn y dyddiau hyn, ond gyda phoblogrwydd *The Repair Shop* ar y teledu, mae pobl yn chwilio am eitemau i'w trwsio. Ond rwy'n amau y byddai'r caffis atgyweirio hyn yn mynd i'r afael â phopty nwy.

Ond mae gen i rywbeth a fydd yn addas i'w atgyweirio. Mae un o goesau fy merfa, teclyn hanfodol i mi, wedi torri. Roeddwn yn gobeithio y byddai'n bosib ei ail-weldio, ond yn anffodus – dydy hi ddim. Cymerodd fy nhad ddosbarthiadau nos i ddysgu weldio ac mae nifer o bethau metel addurniadol o amgylch y tŷ a'r ardd, o bethau dal planhigion gydag addurniadau wedi'u gwneud â llaw, i heyrn tân ymarferol. Fyddai coesau'r ferfa ddim wedi bod yn broblem, ond heddiw mae'n rhy ddrud i'w trwsio a gallai fod yn rhatach prynu berfa newydd. Felly bydd fy hen un i yn cael ei hailddefnyddio fel addurn gardd yn dal bylbiau blodau neu efallai y byddaf yn rhoi cynnig ar blannu perlysiau.

Mae fy letys wedi dioddef ychydig o broblemau hefyd. Dydy cadw ieir a llysiau gyda'i gilydd ddim yn beth call, felly mae'r ieir yn cael eu cadw draw gan ffensys a rhwydi. Fodd bynnag, roedd y letys yn tyfu mor dda, tynnais y rhwydi oddi arnyn nhw, braidd yn fyrbwyll. Ar ôl dod adref, dyna i chi lanast! Roedd un iâr wedi bwyta llond bol o blanhigion. Roedd hi'n eistedd ar y ffens gyda swp o ddail letys. Rhoddais y rhwydi yn ôl dros y planhigion ar unwaith a chan eu bod yn amrywiaeth 'torri a thyfu eto', fe ddaethon nhw at eu hunain yn fuan. Ar ôl hynny, wnaeth yr iâr mo'u bwyta eto – gormod o letys dagith iâr!

Mae uchafbwyntiau ac isafbwyntiau mewn garddio – llawenydd pan fyddwch chi'n cadw'r peiriant torri glaswellt ar gyfer y gaeaf ac isafbwyntiau pan fyddwch yn methu'i danio yn y gwanwyn. Mae fy mlodau gwyllt i wedi bod yn llwyddiant, ac rwyf wrth fy modd gyda glas yr ŷd (*cornflower*), gold Mair (*marigold*), llygad-llo mawr (*oxeye daisy*) a thafod yr ych (*borage*), gydag ambell ddanhadlen yn eu plith yn llosgi'ch traed a'ch coesau wrth i chi fynd heibio. Maen nhw wedi tyfu'n dda ac yn plygu drosodd fel meddwon afreolus erbyn hyn.

Mae'r cŵn wrth eu bodd yn mentro i'r ddôl ac yn diflannu, wedyn yn dod i'r golwg yn sydyn gan ddychryn ieir sy'n torheulo yn y llwch. Mae fel petai popeth yn mwynhau yno ac rwyf wedi gweld digon o ieir bach yr haf a gwenyn. Bydd hi'n ddiddorol gweld sut mae'n newid gyda'r tymhorau.

Mae prysurdeb yr amser nythu yn dod i ben ac mae tawelwch yn yr ardd gan fod llawer o adar yn bwrw eu plu ac yn ceisio cuddio rhag ysglyfaethwyr. Mae'r gwenoliaid yn dal i nythu yn y stabl ac efallai y byddan nhw'n magu trydydd nythaid cyn iddyn nhw ymadael. Mae adar y to yn parhau i ymosod yn wyllt ar fwrdd yr adar ac o amgylch y cytiau ieir i gael grawn sydd wedi'i ollwng. Mae'r adar ifanc hyn yn ddigywilydd, yn bachu ar unrhyw gyfle i ddwyn bwyd a hedfan o gwmpas fel ysbeilwyr ifanc, yn sgwrsio wrth iddyn nhw fynd heibio ar eu ffordd i gyrch arall.

Ym mis Awst chwiliwch am glychau'r eos (*harebells*) ar ochr y bryn. Bydd mwyar duon yn dechrau aeddfedu a chnau cyll gwyrdd ar y coed yn denu gwiwerod drwg sy'n gwledda arnyn nhw, er nad yw'r cnau wedi aeddfedu.

*Hazel*

# Caffi pop-yp

Plannwyd hedyn syniad y caffi pan soniwyd nad oedd lle yn y pentre' i gyfarfod am baned o goffi yn ystod y dydd ers cau'r Kinmel Arms.

Mae wedi cymryd dipyn o amser i'w sefydlu, yn bennaf oherwydd anawsterau Cofid, ond drwy gefnogaeth y Gymdeithas Chwaraeon Lleol, penderfynon ni drefnu'r digwyddiad yng Nghae Nant.

Y syniad oedd darparu coffi a the arbenigol a chefnogi cynhyrchwyr lleol. Mae Owen ac Edwards Rhuthun yn cyflenwi'r coffi mâl ffres; mae'r gwahanol fathau o de (yn cynnwys enwau hyfryd fel *Welsh Sunshine*) yn dod o'r Tŷ Gwyrdd; cacennau o Bopty Henllan a chacennau a sgonau arbenigol fegan a di-glwten o'r Granar Bach – y cwbl o Ddinbych, heb anghofio wrth gwrs hufen iâ Chilly Cow.

Roedd yn galonogol gweld cymaint o bobl hŷn a phlant yn ein cefnogi ddydd Mercher, 20 Gorffennaf. Yn wir, roedden ni mor brysur fel na chawson ni amser i dynnu lluniau i ddangos llwyddiant y dydd – dim ond dau lun cyn i bawb gyrraedd!

Roeddem ni'n falch o'r sylwadau cefnogol a gawson ni ar y diwrnod. Bydd y caffi ar agor nesa ddydd Mercher 10 Awst a 24 Awst.

Gobeithio eich gweld yno!

*Merched y pop-yp*





# Capel y Dyffryn



Cynhaliwyd Gwasanaeth Bro fore Sul Gorffennaf 3ydd yn Neuadd y Pentre dan ofal y Parch Andras Iago gyda gweithgareddau o bob math. Mwynhawyd paned yn ystod y cyfarfod.

Ni fydd gwasanaethau yn y capel yn ystod mis Awst.

**James Davies, AS Dyffryn Clwyd**
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa San Steffan: 0207 2194606


GLYN EVANS AUTOCLINIC
Canolfan Trwsio Ceir
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy
Dinbych LL16 5TA

GWAITH YSWIRIANT
TRWSIO CEIR AR ÔL DAMWEINIAU
CEIR I'W BENTHYG
GWASANAETH NÔL CEIR WEDI TORRI I LAWR
01745 815141
07808970364

# Taith arw ar afon Menai

Mae Anwen yn berson meddylgar a charedig iawn [*da iawn, Bryn!*], achos, ar ddiwrnod Santes Dwynwen, mi ges i diced i fynd ar *RibRide* at Ynys Seiriol – wel ticed i ddau wrth gwrs! ’Nôl ar Ynys Môn eto, meddech chi!!

Mae’n wir ’mod i wedi bod ddwywaith o’r blaen – unwaith ar Afon Menai tuag at Gaernarfon o dan y pontydd ar y RibRide arferol drwy Bwll Ceris (y *Swellies*). Yr ail daith oedd ar y *Velocity,* cwch rasio cyflym 300hp, oedd yn sgimio wyneb y Fenai ar 60mya. Falle mai dyna pam ddaeth rhywun efo’i glipfwrdd a phenderfynu ei bod hi’n rhy beryg – a stopio’r hwyl! Felly dydy hi ddim yn bosib teithio ar y Velocity erbyn hyn. Bellach mae ’na gyfyngu ar gyflymder cychod ar y Fenai i 40mya – rown ni’r bai ar y jetskis.

Rhaid dweud bod Anwen wedi mwynhau’r ddau achlysur – ac felly, dyma ni, eto!



Chware teg i’r Capten Harry (oedd yn edrych yn ddim hŷn na deuddeg oed!) am feddwl mai fi oedd yr hynaf yno, a bod mor feddylgar â chynnig set gefn i mi – gallwn i lithro mewn heb godi ’nghoes dros y seti fel cyfrwyau ceffyl. Mi eglures i’n foneddigaidd nad oedd gen i broblem ynglŷn â hynny! Roedd Anwen a fi mor falch ein bod ni wedi gwrthod ei gynnig, achos – tip gwerth chweil – y sêt gefn ydi’r lle gwaetha am wlychu.

Mae’n daith bleser go iawn – yn wahanol i’r reid *Velocity* oedd yn codi gwallt eich pen. Eto, wrth weld cesig gwynion y tonnau o gwmpas Ynys Seiriol, mi ddechreues i fynd yn wyn fel y galchen! Chware teg, roedd Harry wedi deud ’falle byddai’r môr yn arw, a doedd o ddim yn siŵr pa mor bell alle fo fynd at yr ynys. Ond mi lwyddodd y cwch i fynd yn agos iawn ati.

Stad Bulkeley biau’r ynys a does neb yn byw arni, dim ond adar. Roedd yr adar yn anhygoel – llursod (*razorbills*), gwylogod (*guillemots*), gwylanod coesddu (*kittiwakes*), bilidowcars (*cormorants*), a’r gwylanod cefnddu mwyaf (*great black-backed gulls*) a’u pigau cry’ – gallai'r rhain ddwyn blaene’ch bysedd **a’ch** tships chi)! Roedd y palod â’u pigau oren yn sgimio’n braf ar hyd wyneb y dŵr, a’u hadenydd yn curo mor gyflym, prin eich bod chi’n gallu eu gweld o gwbwl. Pwy ddaeth yn fusnes i gyd o gwmpas y cwch ond y morloi a’u pennau’n dowcio fewn ac allan o’r dŵr.

Ffaith ddiddorol – cyflwynodd y stad lygod mawr i’r ynys yn nechrau’r 1990au i reoli poblogaeth y gwylanod drwy fwyta eu hwyau. Ond, wnaeth y cynllun ddim gweithio – mi fwytodd y llygod mawr wyau’r palod hefyd a’u difa nhw i gyd. Dim ond rŵan, 45 mlynedd yn ddiweddarach, mae poblogaeth y palod yn dechrau ailsefydlu yno.

Mae hen adeilad semaffor ar yr ynys. Roedd o wedi’i gysylltu â rhai eraill ar hyd arfordir Gogledd Cymru, a gellid anfon neges o Gaergybi i Lerpwl mewn 8 munud – rhyfeddol!




Mi fuon ni’n ddigon lwcus i fynd yn agos iawn at oleudy arswydus Penmon, y Trwyn Du. Cafodd ei adeiladu yn 1838 am £11,589 oherwydd llongddrylliad y stemar *The Rothesay Castle* ar Draeth Lafan cyfagos yn 1831 – collodd 135 o bobol eu bywydau.

Ddim yn bell o’r goleudy mae chwarel Penmon – o hon daeth y cerrig i adeiladu Pont y Borth. Ewch o dani rywbryd i chi gael rhyfeddu at faint y cerrig 200 oed gafodd eu symud cyn oes

# Taith arw ar afon Menai: parhad



y mecaneiddio! Caewyd y chwarel yn fuan ar ôl adeiladu'r bont – doedd mo'i hangen hi wedyn. Falle mai 'clêm tw ffêm' mwyaf y chwarel ydi bod y selebs yn *I'm a celebrity – get me out of here* wedi dod ar ddechre'r gyfres i ymarfer eu sgiliau abseilio!

Roedd y daith 'nôl fel pennod allan o *Through the Keyhole.* Wyddech chi fod gan Malcom Walker – perchennog *Iceland* (y siop!) dŷ ha' ar lan Afon Menai? Ond, yn ôl Harry, dydi o byth adre!

Ydych chi wedi bod yn dilyn llwyddiant cwmni Huws Gray – a ddechreuodd efo un buarth yn Llangefni yn 1990 ond sydd, erbyn hyn, yn gyflenwr adeiladwyr annibynnol mwyaf Prydain ac yn cyflogi 1800 o bobol? Wel, mae Mr Terry Owen, sefydlydd a rheolwr-gyfarwyddwr y cwmni, wedi tretio ei hun i dŷ crand sy'n edrych dros yr afon.

Wedyn y bloc fflatiau braidd yn hen-ffasiwn erbyn hyn – Glyn Garth Court. Prif atyniad y rhain pan oedden nhw'n cael eu gwerthu ar y pryd oedd bod Roger Moore yn berchen ar un. Wnaeth y gwerthwr tai ddim egluro nad **Y** Roger Moore, seren y byd ffilmiau, oedd hwn! Dydi rhai pethe ddim yn newid!!

Roedd aer y môr wedi ein gwneud ni'n llwglyd ac fe ymunodd Manon a'n hwyres, Rhiannon, â ni yn y Liverpool Arms – un o'm hoff leoedd. Yna, ddaru ni gerdded yn hamddenol ar hyd y Promenâd Belgaidd. Adeiladwyd hwn gan y Belgiaid oedd wedi ffoi o'u gwlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf – eu ffordd nhw o ddiolch i bobl Porthaethwy am eu lletygarwch. Mae'n werth ymweld â'r lle.



Os cewch chi amser, mae'n werth mynd am dro hefyd i eglwys fach Sant Tysilio ar ddiwedd y promenâd. Mi fues i'n ddigon ffodus ychydig yn ôl i gael taith dywys o'i chwmpas. Er nad ydi'n agored drwy'r amser, mae gwasanaeth yno unwaith y mis, ac mae priodasau yno'n amal – ond does dim trydan yno. Mi sylwes ar organ drydan a gofyn 'Sut mae honno'n gweithio?' A'r ateb – 'Efo batris car'! Fydde hynny ddim yn plesio Anwen – paratoi at y gwasanaeth yn yr Eglwys ac wedyn gorfod llusgo'r batris efo hi!

Os 'dech chi'n ffansïo diwrnod o wyliau, ewch am Borthaethwy – mae 'na gymaint o bethe anhygoel i'w gweld ar ein stepen drws.

*Bryn Davies*

**Aelodau Pwyllgor Llais Llandyrnog:**

Ruth Griffith (cadeirydd), Ivan Butler (trysorydd a chysodydd), Catherine ac Ed Howarth, Anwen Davies (cysodydd), Gwen Butler (cydlynydd), Bryn Davies (cofnodion), Ann ac Iestyn Jones-Evans (cydlynwyr), Rhian Jones, Rod a Margaret Williams, Sian Gwyn Ifan.

# Ysgol Bryn Clwyd

**Bêc-off Bryn Clwyd**
Llongyfarchiadau i'r tîm buddugol ar y sgons lemon a siocled gwyn – Amelia, Jac, Demi a Kayla.



**Trip ysgol**
I Gelli Gyffwrdd yr aeth y disgyblion eleni a chael amser gwych yno.





**Pêl-droed**
Chwaraeodd y tîm pêl droed gêm gyfeillgar yn erbyn Gellifor, partner ffederal Ysgol Bryn Clwyd. Mwynhaodd y ddwy ysgol y profiad o wisgo'u cit pêl-droed ysgol a chwarae fel tîm. Roedd hi'n gêm agos iawn ond Gellifor a enillodd 2-0.

**Disgyblion newydd**
Croesawodd yr ysgol ddau ddisgybl newydd yn gynnar ym mis Gorffennaf, sef Tommy, a ymunodd â'r dosbarth meithrin, a Sava, sydd wedi teithio yma o'r Wcráin gyda'i fam. Mae'n 7 oed, ac er nad ydi o'n siarad Saesneg, mae'r disgyblion wedi ei groesawu yn gynnes, gan ei helpu i setlo yn yr ysgol.

**Neges diwedd blwyddyn y Pennaeth**
Hoffwn gydnabod gwaith caled a chlodwiw a dycnwch y staff a'r disgyblion, mewn cyfnod o obaith ein bod wedi cael ein blwyddyn ola o straen ychwanegol COVID-19. Er y cyfleoedd allgyrsiol, y tripiau, y gweithdai, yr ymwelwyr, a'r gwersi rhagorol gafwyd yn ystod y flwyddyn, mae'n hawdd anghofio mai dim ond mor ddiweddar â'r tymor diwethaf, roedd Sir Ddinbych yn wynebu'r cyfraddau ucha o absenoldebau staff a disgyblion yn ystod y pandemig yma.

Hoffwn gyfleu fy niolchgarwch i Mr Owen Conry, Cadeirydd y Llywodraethwyr, sy'n ymadael eleni. Mae Owen wedi bod yn gefn cadarn y tu ôl i'r llenni, yn sicrhau bod y Corff Llywodraethol wedi cefnogi a herio'r ddwy ysgol i'r eithaf. Mae o, a'n his-gadeirydd, Dr Bethan Atkinson, wedi deisebu'n llwyddiannus i adolygu fformiwla ariannu ysgolion bach Sir Ddinbych a sicrhau bod yr ysgolion bach yn cael eu cefnogi'n well yn ariannol.

Hoffwn ddymuno haf gwych i bawb, a diolch am eich cefnogaeth barhaus i Ysgol Bryn Clwyd.

*Richard Monteiro*

# Clwb Pêl-droed Llandyrnog – Cynghrair yr Haf

Dyma enillwyr noson wobrwyo'r tîm – llongyfarchiadau mawr iddyn nhw i gyd!



Chwaraewr y rheolwr – Jac Evans



Chwaraewr y chwaraewyr a'r un a sgoriodd y nifer fwyaf o goliau – Craig Jones



Chwaraewr ifanc a chwaraewr y cefnogwyr – Jake Jones




Cefnogwr mwyaf gweithgar y clwb – Selina Humphreys

# Rysáit

**Macaroni Blasus (i ddau)**

4 owns o facaroni
1 nionyn wedi'i falu'n fân
2–3 sleisen o gig moch/bacwn, wedi'u torri'n ddarnau bach
Tun bach o domatos
2 owns o gaws wedi'i ratio

Berwi'r macaroni nes ei fod yn barod ond nid yn rhy feddal. Tywallt y dŵr ohono a rhedeg dŵr oer drwyddo.
Ffrio'r nionyn a'r cig moch yn ysgafn heb saim ychwanegol. Ychwanegwch y tomatos a chymysgwch y cwbl yn dda.
Rhowch y cymysgedd hwn gyda'r macaroni mewn sosban ac ailgynheswch y cwbl yn drwyadl. Ei roi ar blât a sgeintio'r caws drosto cyn ei fwyta.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun, Mawrth, Iau, Gwener**
**9am–12pm, 2pm–5pm**
**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**
**01824 790310**



# Gair gan yr offeiriad

Ar gyfer y cylchgrawn hwn ym mis Awst, mae'n siŵr mai sôn am Bererindod Gristnogol sydd fwyaf priodol. Wrth gwrs, Awst yw adeg y flwyddyn pan mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd eu gwyliau a buom yn dathlu dechrau gwyliau'r plant gyda Llan Llanast ddydd Sul, 10 Gorffennaf. Rydym yn gobeithio hefyd y bydd yr esgobaeth yn gwneud Llangwyfan yn Eglwys Bererinion swyddogol gan fod y pwyllgor i gyd yn cytuno bellach mai dyma'r ffordd ymlaen.

Mae Pererindod Gristnogol ychydig yn debyg i wyliau yn yr ystyr ei fod yn awgrymu taith o ryw fath, ond mae gwahaniaeth rhwng twristiaid a phererinion. Mae twristiaid yn mynd trwy'r lle ond i'r pererinion, y lle sy'n mynd trwyddyn nhw. Mae hyn oherwydd bod y daith fel arfer yn un i safle o arwyddocâd sanctaidd. Wrth gwrs, y lle mwyaf arwyddocaol ar gyfer pererinion Cristnogol yw'r Wlad Sanctaidd. Yn wahanol i wreiddiau'r traddodiad, dydy Duw ddim yn nheml hanesyddol y Tir Sanctaidd! Mae Duw gyda ni – trwy'r Ysbryd Glân, ble bynnag yr ydym – ac yn bresennol gyda ni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r wlad hon, lle cerddodd Iesu – Duw gyda ni – yn fan lle down mor ymwybodol o ddynoliaeth Duw. Meddyliwn am yr holl leoedd yn y Beibl lle cyflawnodd Iesu ei holl weithredoedd dros y ddynoliaeth gyfan erioed, gan gefnu yn gynnar ar ei fywyd daearol ei hun.

Mae cymaint o leoedd i ymweld â nhw yn y Wlad Sanctaidd i gyd, ond mae ansicrwydd ynghylch dilysrwydd ambell le. Mae'n debygol iawn mai Eglwys y Beddrod Sanctaidd yw'r man lle bu cymaint o'r digwyddiadau anhygoel a gofnodwyd am Iesu. Cafodd ei adeiladu yn wreiddiol gan yr Ymerawdwr Cystennin yn 325 OC o amgylch digwyddiadau marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. Ers hynny mae wedi ei chwalu a'i hailadeiladu sawl gwaith. Yn 1149 adeiladwyd yr eglwys bresennol gan y Croesgadwyr. Mae'r lle anhygoel hwn yn gartref i 5 cam olaf y groes – hoelio Iesu ar y groes, Iesu wedi'i groeshoelio ac yn marw, tynnu Iesu oddi ar y groes a'i osod i'w eneinio. Gosod yn y bedd, Iesu yn fyw, mae'r bedd yn wag.

Yn ystod y penwythnos Drysau Agored mae llestri arian yr eglwysi a phethau o bwys yn cael eu harddangos, gyda lluniaeth a phobl i siarad â nhw hefyd. Mae hwn yn ddigwyddiad cenedlaethol gan CADW a bydd yr Ardal Genhadu yn cymryd rhan, felly byddai hynny'n amser da i'w gynnwys yn eich cynllun pererindota. ydd yn cael ei gynnal ar benwythnos dydd Gwener–dydd Sul, 23–25 Medi. Efallai y byddwch hefyd am ystyried mis Rhagfyr fel rhan o'r cynllun hwnnw i fod yn bererindod pan fydd gennym basbort newydd ar gyfer dod o hyd i nodweddion y Geni drwy gydol mis Rhagfyr eleni, yn y cyfnod sy'n arwain at y Nadolig.

Gan gofio'r hyn a ddywedais i gynt fod Duw gyda ni trwy bresenoldeb a nerth yr Ysbryd Glân ble bynnag yr awn, hoffwn orffen gyda'r fendith bererindod hapus hon, "Bydded Duw wrth eich ochr bob amser a bydded ichi fod yn agored i'w gariad wrth iddo ddatgelu eich llwybr o'ch blaen. Bydded i Dduw eich amddiffyn, a bydded ei wynt yn eich hwyliau yn eich anfon ymlaen yn esmwyth. Yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, Amen".

*Y Parch. Martin Pritchard,*
*Offeiriad Ardal Genhadu Dinbych*



*Eglwys y Beddrod Sanctaidd, Jeriwsalem*


Dyma'r eglwysi a fydd ar agor yn ystod penwythnos Drysau Agored:

St Iago, Nantglyn, LL16 5PL
St Cwyfan, Llangwyfan, LL16 4LU
St Dyfnog, Llanrhaeadr, LL16 4NN
St Tyrnog, Llandyrnog, LL16 4LT
St Sadwrn, Henllan, LL16 5BD
Eglwys y Santes Fair, Dinbych, LL16 3HF
Eglwys y Drindod, Trefnant, LL16 5UF
Eglwys yr Holl Saint, Sinan, Groesffordd Marli, LL22 9DR
St Steffan, Bodfari, LL16 4DA
St Nefydd a'r Santes Fair, Llanefydd, LL16 5EQ
Eglwys Corff Crist, Tremeirchion, LL17 0RU
Santes Marchell, Dinbych, LL16 4ER
St Mihangel, Caerwys, CH7 5PZ

---

## Stiwdio agored
## 27–28 Awst, 11am–4pm
### Ruth Thomas a Tara Dean

**Bryn Egwallt Llandyrnog, LL16 4NB**
**What 3 words: cross.performed.heavy**






www.taradean.co.uk



www.ruththomas.net

Yn y cyfarfod ym mis Gorffennaf, buom ni'n dysgu am bererindodau ac am dri lle cysegredig yng Ngogledd Cymru, a gwneud gweithgareddau ar gyfer pob un ohonyn nhw. Eglurodd y Parch Martin ystyr dŵr swyn a bedyddio (*Ffynnon Gwenffrewi*), dilynom ni drysleoedd (*St Beuno*), a gwneud llwyau caru (*Llanddwyn*). Gwnaethom ni arwydd ffordd mawr oedd yn pwyntio at y gwahanol leoedd cysegredig; coed i ddangos yr holl dymhorau gyda'r geiriau, 'Gaeaf, Gwanwyn, Haf, Hydref – mae Duw gyda ni drwy'r rhain i gyd' arnyn nhw; amlinelliad o'n traed ar bapur, eu torri allan a'u gludo ar y 'ffordd' i ddangos ein bod ar bererindod, ac addurno cregyn bylchog fel roedden nhw'n cael eu defnyddio yn gwpanau dal dŵr a phlatiau bwyd gan y pererinion ar eu teithiau.





Ni fydd Llan Llanast ym mis Awst, ond byddwn yn ôl dydd Sul 11 Medi, ac edrychwn ymlaen at weld pawb eto!

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Gorffennaf Cyngor Cymuned Llandyrnog

Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Cynghorydd Butler a chroesawyd y Cynghorydd Jane Borthwick i'w chyfarfod cyntaf.

- Roedd hi'n siomedig nad oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi ymateb i'r cais i atgyweirio a phaentio'r rheiliau ar Groesffordd y Waen, nac wedi rhoi wyneb ar y ffordd sy'n arwain at y maes parcio, y tu cefn i Faes Llan. Mae polyn golau yn y maes parcio hwn heb ei osod hyd yn hyn, er addo hyn yn ystod 2022.
- Ni dderbyniodd y Cyngor raglen flynyddol torri glaswellt, ac felly mae'n analluog i hysbysu'r preswylwyr ynglŷn â'r mater. Gwnaed cais am dorri'r glaswellt rhwng Celynog a Llangwyfan ar sail diogelwch – gorfodir cerddwyr i gerdded ar y ffordd.
- Bydd CSDd ac *Open Reach* yn mynd i'r Stafelloedd Coco ar 20fed Gorffennaf, felly, yn dilyn hyn, gobeithio y bydd band-eang llawn yno. Rhagor o fanylion i ddilyn.
- Gwnaed cais am hysbysfwrdd yn Llangwyfan. Ymofynnir am brisiau ac fe drafodir hyn ar ddyddiad yn ddiweddarach.
- Nid oedd Cadwyn Clwyd wedi ymateb i gais am wybodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o ariannu arolwg anghenion cymuned yn rhannol.

**Materion Cynllunio**

- Gwnaed cais i adeiladu pump o dai crwn i'w gosod fel adeiladau gwyliau ar dir y tu cefn i dafarn y *Kinmel Arms*. Ni allai'r Cyngor Cymuned gefnogi'r cynllun fel y'i cyflwynwyd – doedd dim digon o wybodaeth fel y gallai'r aelodau roi barn wybodus ar y cynnig
- Datblygiad Maes Llan: Cynrychiolodd y Cynghorydd Butler y Cyngor Cymuned mewn cyfarfod safle ar yr 8fed Gorffennaf i gyfleu pryderon y preswylwyr ynglŷn â gwahanol agweddau ar y datblygiad. Fodd bynnag, mewn cyfarfod cynllunio dilynol ar 13eg Gorffennaf, cymeradwywyd y cynllun – ond bydd yn rhaid cwrdd â nifer o amodau a'u cymeradwyo cyn y gellir dechrau'r gwaith adeiladu.


## Blue Hand Mowers

**Repair and servicing of all garden machinery:**

**Lawn mowers and lawn tractors**
**Chain saws**
**Hedge cutters**
**Strimmers**
**Disc cutters**
**Quad bikes**
**Leaf blowers**
**Hand tools**

**Collection and delivery service available**

**Situated on 'Blue Hand Corner' or find us on Google**
**www.bluehandmowers.co.uk**
**enquiries@bluehandmowers.co.uk**
**☎0775 20 35 462**


**Cyngor Sir Ddinbych**
**Merfyn Parry**



Manylion cyswllt:
Ffôn: 07836 208446
E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk
Neu gadewch neges ar Facebook

**Rhifau Ffôn Defnyddiol**

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych — 01824 706101
Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan i oriau swyddfa — 0300 123 3068
Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345